Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Y Dderwen

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth dros dro yn rhoi cyfeiriad clir i'r ysgol, gyda ffocws pwrpasol ar gyfoethogi profiadau dysgu a chefnogi datblygiad personol bob disgybl. Mae'r weledigaeth hon wedi'i rhannu'n llwyddiannus â staff, rhieni a'r gymuned, gan feithrin ymdeimlad cryf o bwrpas ar y cyd. Gyda chefnogaeth tîm ymroddgar, mae arweinwyr wedi meithrin amgylchedd gofalgar sy'n adlewyrchu natur Gymreig yr ysgol ac yn cyfrannu at safonau uchel o ymddygiad ac ymrwymiad at ddysgu ymhlith bron bob disgybl.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg yn effeithiol ac yn defnyddio'r iaith yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau. Wrth symud drwy'r ysgol, maent yn cryfhau eu medrau darllen ac ysgrifennu'n gyson ac yn mynegi eu syniadau'n llwyddiannus. Mae medrau mathemategol a digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth rifedd yn bwrpasol wrth drin data a datrys problemau, tra bod eu defnydd o dechnoleg yn cefnogi medrau cyfathrebu a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol. Mae bron bob disgybl yn dangos dealltwriaeth dda o sut i ddefnyddio technoleg yn ddiogel ac yn gyfrifol.

Mae staff yn cyflwyno cwricwlwm sy'n cynnig ystod gyfoethog o brofiadau, yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn cefnogi datblygiad cadarn yn eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Yn yr arferion gorau, mae'r gweithgareddau yn herio disgyblion yn fwriadus i wneud cynnydd cadarn ac mae athrawon yn dechrau defnyddio adborth yn fwy effeithiol i gefnogi disgyblion i ddeall eu cryfderau a'r camau nesaf yn eu dysgu'n briodol. Er hyn, nid yw'r arferion mwyaf effeithiol yma wedi gwreiddio'n ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn defnyddio gweithdrefnau effeithiol er mwyn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth sy'n eu cefnogi i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae'r buddsoddiad mewn dysgu proffesiynol pwrpasol wedi cryfhau ansawdd y ddarpariaeth, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn darparu cymorth effeithiol.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cysoni’r arferion addysgu mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/08/2026